

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyllideb Atodol 2010-11 (A gyflwynwyd Mehefin 2010)

Gorffennaf 2010

Cyflwynwyd Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2010-11 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2010. Mae Cyllideb Atodol 2010-11 yn cynnig newidiadau, o natur weinyddol yn bennaf, ac mae'n adlewyrchu symiau a drosglwyddwyd rhwng y prif grwpiau gwariant, newidiadau portffolio, dyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn ac addasiadau o natur dechnegol.

Bwriedir i'r papur hwn gael ei ddefnyddio i graffu ar y Gyllideb Atodol. Mae'n rhoi trosolwg ar y newidiadau hyn a manylion y newidiadau ym mhob portffolio, gan eu cymharu â Chyllideb Derfynol 2010-11 y cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol arni ym mis Rhagfyr 2009.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r cyfan o'r 60 Aelod Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu ysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosib i roi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylw ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallech eu hanfon at y cyfeiriad post neu ebost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur drwy safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ebost: MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyllideb Atodol 2010-11
(A gyflwynwyd: Mehefin 2010)

Gorffennaf 2010

Dr. Eleanor Roy

Rhif Dogfen: 10 / 060

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Crynodeb

Mae Cyllideb Atodol 2010-11 yn cynnig newidiadau sy'n weinyddol yn bennaf ac sy'n adlewyrchu trosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant (PGG), newidiadau portffolio, dyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn ac addasiadau o natur dechnegol.

Ffigurau absoliwt a nodir yn y papur hwn; nid ydynt wedi'u haddasu i ystyried chwyddiant.

- Mae gostyngiad o 1.5 y cant (£230.4 miliwn) yn y cyfanswm gwariant a reolir (CGR) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru
- Mae cynnydd o 1.1 y cant (£173.5 miliwn) yn y Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru
- Mae gostyngiad o 0.5 y cant (£65.3 miliwn) yn y TGA refeniw a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru
- Mae cynnydd o 17 y cant (£238.8 miliwn) yn y TGA cyfalaf a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru
- Mae gostyngiad o 57.3 y cant (£403.4 miliwn) yn y gwariant a reolir yn flynyddol (GRF)

Dyma'r newidiadau mwyaf:

- Y prif grŵp gwariant (PGG), yr Economi a Thrafnidiaeth, sydd â'r gostyngiad mwyaf yn y CGR (o ran swm a chanran), sef gostyngiad o 37.1 y cant (£605 miliwn). Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 14.9 y cant (£173 miliwn) yn y TGA a gostyngiad o 91.3 y cant (£432 miliwn) yn y gwariant a reolir yn flynyddol.
- Y prif grŵp gwariant, Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad, sy'n dangos y cynnydd mwyaf, sef 30.1 y cant (£16.6 miliwn), yn y cyfanswm gwariant a reolir. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd yn y TGA (TGA cyfalaf yn bennaf).
- Y prif grŵp gwariant, Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n dangos y cynnydd mwyaf o ran swm, sef 3.5 y cant (£216.3 miliwn), yn y cyfanswm gwariant a reolir. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 3.1 y cant (£187.2 miliwn) yn y TGA, a chynnydd o 32.4 y cant (£29.1 miliwn) yn y gwariant a reolir yn flynyddol.
- Mae Comisiwn y Cynulliad yn dangos gostyngiad o 4.6 y cant (£2.2 miliwn) yn y cyfanswm gwariant a reolir. Mae hyn yn ganlyniad i ostyngiad o 5.6 y cant (£2.7 miliwn) yn y TGA a £0.5 miliwn ychwanegol yn y gwariant a reolir y flynyddol.

Mae rhagor o fanylion am y newidiadau ym maes rhaglenni gwariant pob Prif Grŵp Gwariant i'w gweld yn adrannau 4 i 12 yn y papur hwn.

Cynnwys

1.	Trosolwg ar y Gyllideb Atodol 2010-11	1
2.	Y Prosiect Alinio (Llinell Welediad Glir)	7
2.1.	Effaith yr alinio ar stociau hyblygrwydd diwedd blwyddyn	8
3.	Symud cronfeydd wrth gefn.....	9
3.1.	Dyraniadau o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.....	10
3.2.	Buddsoddi i Arbed	10
4.	Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus.....	12
5.	Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	16
6.	Yr Economi a Thrafnidiaeth	20
7.	Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes	24
8.	Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	27
9.	Materion Gwledig	30
10.	Treftadaeth.....	32
11.	Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	34
12.	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.....	37

Cyllideb Atodol 2010-11 (Mehefin 2010)

1. Trosolwg ar y Gyllideb Atodol 2010-11

Cyflwynodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt AC) gynnig Cyllideb Atodol 2010-11¹ ar 21 Mehefin 2010. Paratowyd Nodyn Esboniadol i gyd-fynd â'r Gyllideb Atodol, ynghyd â thablau'n dangos dyraniadau'r prif grwpiau gwariant (PGG).² Mae'r Gyllideb Atodol hon yn cynnig newidiadau i Gyllideb Atodol 2010-11³ a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2009.

Newidiadau gweinyddol yn bennaf a gynigir yn y gyllideb atodol hon ac maent yn adlewyrchu'r symiau a drosglwyddwyd rhwng y prif grwpiau gwariant (PGG), newidiadau portffolio, dyraniadau o gronfeydd wrth gefn a newidiadau o natur dechnegol oherwydd prosiect Alinio (Llinell Welediad Glir) y Trysorlys.⁴

Ffigurau absoliwt a nodir yn y papur hwn; nid ydynt wedi'u haddasu i ystyried chwyddiant.

Hefyd, mae'n bosibl na fydd y ffigurau yn y testun yn rhoi'r cyfansymiau a ddangosir gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Mae [Tabl 1](#) yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i'r dyraniadau o ran cyfanswm y gwariant a reolir (CGR)⁵.

Mae [Tabl 2](#) yn rhoi trosolwg o'r newidiadau yn y terfynau gwariant adrannol (DEL)⁶ a ddyrannwyd i bob prif grŵp gwariant.

Mae [Tabl 3](#) yn dangos y newidiadau i'r dyraniadau yn y gwariant a reolir yn flynyddol (GRF)⁷.

¹ Llywodraeth Cymru, [Cynnig Cyllideb Atodol 2010-11](#), 21 Mehefin 2010 [fel ar 28 Mehefin 2010]

² Llywodraeth Cymru, [Nodyn Esboniadol Cyllideb Atodol 2010-11](#) a [Dyraniadau'r Prif Grwpiau Gwariant yng Nghyllideb 2010](#), 21 Mehefin 2010 [fel ar 28 Mehefin 2010]

³ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Derfynol 2010-11](#), mis Rhagfyr 2009 [fel ar 28 Mehefin 2010]

⁴ Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Prosiect Alinio (Llinell Welediad Glir) a'r modd y bydd yn effeithio ar Gymru yn Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: [Symleiddio Cyllid y Llywodraeth: Y Prosiect Alinio a sut y bydd yn effeithio ar Gymru](#) [fel ar 29 Mehefin 2010].

⁵ **Cyfanswm y gwariant a reolir (CGR)** – gwariant refeniw a chyfalaf y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys y terfynau gwariant adrannol (TGA) a'r gwariant a reolir yn flynyddol (GRF).

⁶ **Terfynau gwariant adrannol (TGA)** – Fel rheol, caiff y rhain eu pennu dros dair blynedd fel rhan o adolygiad o wariant Llywodraeth y DU. Arian heb ei neilltuo yw'r rhan fwyaf o'r terfyn gwariant adrannol ac mae'n rhoi disgresiwn llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario (sef yr hyn a elwir yn eitemau sy'n rhan o'r gyllideb wedi'i chlustnodi). Penderfynir ar y newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer yr eitemau hyn drwy fformiwla Barnett. Fodd bynnag, mae rhai elfennau o'r TGA wedi eu neilltuo at ddibenion penodol.

⁷ **Gwariant a reolir yn flynyddol (GRF)** – Ar y cyfan, mae'n fwy anodd rhagweld a rheoli gwariant sy'n rhan o'r gwariant a reolir yn flynyddol o'i gymharu â'r gwariant yn y terfynau gwariant adrannol. Oherwydd hynny, cytunir ar y gwariant a'i adolygu'n flynyddol. Mae'r gwariant a reolir yn flynyddol wedi'i seilio ar y galw, ac mae'n rhaid ei ddyrannu i'r rhaglen y'i clustnodir ar ei chyfer. gellir cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys EM yn ôl y galw, tra bydd Trysorlys EM yn hawlio'n ôl unrhyw gyfran sydd heb gael ei wario.

Dangosir y prif ffigurau yn y tablau a ganlyn. O gymharu â Chyllideb Derfynol 2010-11:


- Mae gostyngiad cyffredinol o 3.7 y cant (£610 miliwn) yn y CGR.
- Mae gostyngiad o 1.5 y cant (£230.4 miliwn) yng nghyfanswm y gwariant a reolir a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae gostyngiad cyffredinol o 1.3 y cant (£206.6 miliwn) yn y TGA.
- Mae cynnydd o 1.1 y cant (£173.5 miliwn) yn y TGA a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae gostyngiad o 0.5 y cant (£65.3 miliwn) yn y DEL refeniw a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru. Gellir priodoli hyn i ddyraniadau o £25.4 miliwn a gafwyd o'r cronfeydd wrth gefn a gostyngiadau gwerth £90.7 miliwn yn ymwneud â'r prosiect Alinio (Llinell Welediad Glir).
- Mae cynnydd o 17 y cant (£238.8 miliwn) yn y DEL cyfalaf a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru. Gellir priodoli hyn yn llwyr i ddyraniadau a gafwyd o gronfeydd wrth gefn.
- Mae gostyngiad o 57.3 y cant (£403.4 miliwn) yn y gwariant a reolir yn flynyddol. Gellir priodoli'r rhan fwyaf o hyn i addasiadau a wnaed mewn perthynas â'r prosiect Alinio (Llinell Welediad Glir) yng nghyswllt prif grŵp gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth.

Tabl 1: Newidiadau yng nghyfanswm y gwariant a reolir (CGR)

Prif Grŵp Gwariant	Cyfanswm Terfynol yng Nghyllideb 10-11 (Rhag 2009)	Newid rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol		Cyllideb Atodol 10-11 (Mehefin 2010)
	£ miloedd	£ miloedd	canran	£ miloedd
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,184,029	216,316	3.5	6,400,345
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,515,911	-39,675	-0.9	4,476,236
Yr Economi a Thrafnidiaeth	1,627,737	-604,630	-37.1	1,023,107
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	2,051,382	101,253	4.9	2,152,635
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	639,652	148,621	23.2	788,273
Materion Gwledig	153,136	-10,371	-6.8	142,765
Treftadaeth	192,077	-32,635	-17.0	159,442
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	55,129	16,600	30.1	71,729
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	397,198	-25,894	-6.5	371,304
Cyfanswm y dyraniadau adrannol	15,816,251	-230,415	-1.5	15,585,836
Cronfeydd Refeniw wrth gefn	225,883	-64,064	-28.4	161,819
Cronfeydd cyfalaf wrth gefn ar gyfer y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol	341,078	-313,259	-91.8	27,819
Comisiwn y Cynulliad	48,973	-2,246	-4.6	46,727
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,047	0	0.0	5,047
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,208	-42	-1.0	4,166
Ffioedd uniongyrchol	675	0	0.0	675
Y Cyfanswm o fewn CGR Cymru	16,442,115	-610,026	-3.7	15,832,089

Ffynhonnell: Ffigurau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n seiliedig ar [Gyllideb Atodol 2010-11](#)

Figur 1: Canran y newid yn nherfynau gwariant adrannol pob prif grŵp gwariant



Ffynhonnell: Ffigurau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n seiliedig ar [Gyllideb Atodol 2010-11](#)

Tabl 2: Newidiadau yn y terfynau gwariant adrannol (TGA) – cyfanswm, DEL referniw a chyfalaf

Prif Grŵp Gwariant	CYFANSWM TGA				TGA REFENIW				TGA CYFALAF			
	Cyfanswm Terfynol yng Nghyllideb 10-11 (Rhag 2009)		Newid rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol		Cyfanswm Terfynol yng Nghyllideb 10-11 (Rhag 2009)		Newid rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol		Cyfanswm Terfynol yng Nghyllideb 10-11 (Rhag 2009)		Newid rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol	
	£ miloedd	£ miloedd	canran	£ miloedd	£ miloedd	£ miloedd	canran	£ miloedd	£ miloedd	£ miloedd	canran	£ miloedd
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,094,180	187,217	3.1	6,281,397	5,797,568	79,517	1.4	5,877,085	296,612	107,700	36.3	404,312
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	4,502,328	-37,769	-0.8	4,464,559	4,424,070	-22,606	-0.5	4,401,464	78,258	-15,163	-19.4	63,095
Yr Economi a Thrafnidiaeth	1,153,970	-172,265	-14.9	981,705	722,958	-120,993	-16.7	601,965	431,012	-51,272	-11.9	379,740
Plant, Addysg, Dysgu Cydol Oes a Sgiliau	1,875,784	73,453	3.9	1,949,237	1,692,892	12,553	0.7	1,705,445	182,892	60,900	33.3	243,792
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	717,652	147,621	20.6	865,273	369,094	14,786	4.0	383,880	348,558	132,835	38.1	481,393
Materion Gwledig	153,136	-10,371	-6.8	142,765	136,407	-10,371	-7.6	126,036	16,729	0	0.0	16,729
Treftadaeth	162,493	-5,109	-3.1	157,384	147,371	-8,409	-5.7	138,962	15,122	3,300	21.8	18,422
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	55,129	16,600	30.1	71,729	54,704	-4,400	-8.0	50,304	425	21,000	4941.2	21,425
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	397,198	-25,894	-6.5	371,304	361,165	-5,394	-1.5	355,771	36,033	-20,500	-56.9	15,533
Cyfanswm TGA yr adrannau	15,111,870	173,483	1.1	15,285,353	13,706,229	-65,317	-0.5	13,640,912	1,405,641	238,800	17.0	1,644,441
Cronfeydd wrth gefn Refeniw	225,883	-64,064	-28.4	161,819	225,883	-64,064	-28.4	161,819	0	0	0.0	0
Cronfeydd cyfalaf wrth gefn ar gyfer y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol	341,078	-313,259	-91.8	27,819	0	0	0.0	0	341,078	-313,259	-91.8	27,819
Comisiwn y Cynulliad	48,973	-2,746	-5.6	46,227	48,198	-2,746	-5.7	45,452	775	0	0.0	775
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,047	0	0.0	5,047	5,047	0	0.0	5,047	0	0	0.0	0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,208	-42	-1.0	4,166	3,745	-42	-1.1	3,703	463	0	0.0	463
Ffioedd uniongyrchol	675	0	0.0	675	675	0	0.0	675	0	0	0.0	0
Cyfanswm yn TGA Cymru	15,737,734	-206,628	-1.3	15,531,106	13,989,777	-132,169	-0.9	13,857,608	1,747,957	-74,459	-4.3	1,673,498

Ffynhonnell: Ffigurau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n seiliedig ar [Cyllideb Atodol 2010-11](#)

Tabl 3: Newidiadau yn y gwariant a reolir yn flynyddol

Prif Grŵp Gwariant	Cyfanswm Terfynol yng Nghyllideb 10-11 (Rhag 2009)		Newid rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol		Cyllideb Atodol 10-11 (Mehefin 2010)
	£ miloedd	£ miloedd	canran	£ miloedd	
	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	89,849	29,099	32.4	118,948
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	13,583	-1,906	-14.0	11,677	
Yr Economi a Thrafnidiaeth Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	473,767	-432,365	-91.3	41,402	
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Treftadaeth	175,598	27,800	15.8	203,398	
	-78,000	1,000	-1.3	-77,000	
	29,584	-27,526	-93.0	2,058	
Cyfanswm y GRF adrannol	704,381	-403,898	-57.3	300,483	
Comisiwn y Cynulliad	-	500	-	500	
Cyfanswm cyllideb y GRF	704,381	-403,398	-57.3	300,983	

Ffynhonnell: Ffigurau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n seiliedig ar [Cyllideb Atodol 2010-11](#)

Dyma'r newidiadau mwyaf:

- Economi a Thrafnidiaeth yw'r Prif Grŵp Gwariant sy'n dangos y gostyngiad mwyaf yn y CGR (o ran y swm ei hun ac o ran canran), sef gostyngiad o 37.1 y cant (£605 miliwn). Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 14.9 y cant (£172 miliwn) yn y TGA a gostyngiad o 91.3 y cant (£432 miliwn) yn y gwariant a reolir yn flynyddol. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod **cyfrifoldeb dros Adfywio wedi'i drosglwyddo** i bortffolio'r Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae hefyd yn adlewyrchu'r addasiadau technegol a wnaed o dan y prosiect **Alinio (Llinell Welediad Glir)**.
- Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yw'r Prif Grŵp Gwariant sy'n dangos y cynnydd mwyaf yn y CGR, sef 30.1 y cant (£16.6 miliwn). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd yn y TGA (TGA cyfalaf yn bennaf) oherwydd y **trosglwyddwyd Arian Cyfatebol** i PGG y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Prif Grŵp Gwariant sy'n dangos y cynnydd mwyaf o ran swm yn y CGR, sef cynnydd o 3.5 y cant (£216.3 miliwn). Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 3.1 y cant (£187.2 miliwn) yn y TGA, a chynnydd o 32.4 y cant (£29.1 miliwn) yn y GRF. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu nifer o **drosglwyddiadau rhwng y PGG ac addasiadau technegol o dan y prosiect Alinio (Llinell Gwelediad Glir)**.

- Mae Comisiwn y Cynulliad yn dangos gostyngiad o 4.6 y cant (£2.2 miliwn) yn y CGR. Gellir priodoli hyn i ostyngiad o 5.6 y cant (£2.7 miliwn) yn y TGA a £0.5 miliwn ychwanegol yn y GRF. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu **addasiadau technegol a wnaed o dan y prosiect Alinio (Linell Gwelediad Glir).**

Mae rhagor o fanylion am y newidiadau i Feysydd Rhaglenni Gwariant (MRhG) pob Prif Grŵp Gwariant i'w cael yn adrannau 4 i 12 o'r papur hwn.

2. Y Prosiect Alinio (Llinell Welediad Glir)

Mae [Prosiect Alinio \(Llinell Welediad Glir\)](#) Trysorlys EM yn effeithio ar y fframwaith cyllidebol, a daeth y newidiadau cysylltiedig i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 2010. Y **prif newid yw cael gwared ar ffiniau costau sydd bron yn arian parod⁸/nad ydynt yn arian parod⁹ o gyllidebau adnoddau.** Mae rhagor o wybodaeth am y Prosiect Alinio (Llinell Welediad Glir) i'w chael yn un o Hysbysiadau Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sef: [Symleiddio Cyllid y Llywodraeth: y Prosiect Alinio a sut y bydd yn effeithio ar Gymru.](#)

Mae'r Gyllideb Atodol hon yn gwneud yr addasiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gyllideb yn cadw at y gofynion hyn. Mae [Tabl 4](#) yn dangos y newidiadau a wnaed yn llinellau sylfaen y gyllideb atodol er mwyn bodloni gofynion y prosiect Alinio.

Tabl 4: Addasiadau a wnaed mewn perthynas ag alinio (Llinell Welediad Glir)

Prif Grŵp Gwariant	Newidiadau		
	TGA	GRF	Cyfan- swm
	<i>£ miloedd</i>	<i>£ miloedd</i>	<i>£ miloedd</i>
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	41,553	39,213	80,766
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	0	0	0
Yr Economi a Thrafnidiaeth	-112,275	-432,365	-544,640
Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	-202	0	-202
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	-108	0	-108
Materion Gwledig	-10,496	0	-10,496
Treftadaeth	-8,409	0	-8,409
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	25	0	25
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-805	0	-805
Cyfanswm y newidiadau	-90,717	-393,152	-483,869

Ffynhonnell: Ffigurau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n seiliedig ar [Gyllideb Atodol 2010-11](#)

⁸ **Costau sydd bron yn arian parod** – Mae'r costau hyn yn ystyried y gwahaniaethau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a'r llif arian ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, rhaid gwario ar gyflenwadau nwy/trydan wrth ddefnyddio tanwydd, ond efallai mai'n ddiweddarach, yn chwarterol, y gwneir y taliad mewn arian parod. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys cyflogau, caffael, grantiau a chymorthdaliadau i'r sector preifat a chymorthdaliadau i gorfforaethau cyhoeddus. Mae costau sydd bron yn arian parod hefyd yn cyfeirio at symiau a dalwyd y cyfeirir atynt mewn termau cyllidebu a chyfrifyddu drwy ryddhau darpariaethau. Mae rheolaeth ar wahân ar gostau sydd bron yn arian parod yn yr elfen cyllideb Adnoddau o'r TGA.

⁹ **Costau nad ydynt yn arian parod** – Eitemau a nodir mewn cyllidebau er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu gwir gost gweithgaredd, er nad oes cysylltiad uniongyrchol â llif arian yn y cyfnod dan sylw. Efallai na fydd angen taliad mewn arian parod o gwbl ar yr eitemau hyn (er enghraifft, taliadau cost cyfalaf), neu bydd angen taliad mewn arian parod mewn blynyddoedd diweddarach (er enghraifft, darpariaethau).

Mae'r addasiad mwyaf yn gysylltiedig â phortffolio'r Economi a Thrafnidiaeth, sef gostyngiad o £112 miliwn yn y TGA a gostyngiad o £432 miliwn yn y GRF.

Mae'r addasiadau hyn wedi effeithio ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad hefyd, gyda gostyngiad o £2.7 miliwn yn y TGA a chynnydd o £0.5 miliwn yn y GRF. Bu gostyngiad o £42,000 hefyd yng nghyllideb TGA Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.1. *Effaith yr alinio ar stociau hyblygrwydd diwedd blwyddyn*

Ar ôl cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng costau sydd bron yn arian parod a chostau nad ydynt yn arian parod, bydd newid hefyd yn y stociau hyblygrwydd diwedd blwyddyn¹⁰. Stociau hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn TGA adrannau fydd cyfanswm eu stoc HDB sydd bron yn arian parod, a chanran eu stoc HDB presennol nad yw'n arian parod. Bydd canran y stoc HDB presennol nad yw'n arian parod a ellir ei chadw'n cael ei phennu fesul adran,¹¹ a chaiff ei neilltuo i'w defnyddio at ddibenion dibrisiant ac amhariadau'n unig.

O'r Papur Gwyn Alldro Gwariant Cyhoeddus, [PEOWP 2008-09](#) (sef y ffigurau diweddaraf sydd ar gael), dyma'r stociau hyblygrwydd diwedd blwyddyn sydd ar gael i Gymru: TGA adnoddau - £739.9 miliwn (*269.4 miliwn o'r swm hwn bron yn arian parod*) a TGA cyfalaf - £230.5 miliwn. O ganlyniad i'r newidiadau alinio, gall y stoc hyblygrwydd diwedd blwyddyn sydd ar gael i Gymru (sef £470.5 miliwn cyn alinio) ostwng yn sylweddol.

¹⁰ **Hyblygrwydd diwedd blwyddyn (HDB)** – Dull o drosglwyddo darpariaeth na chafodd ei gwario yng nghyllideb y terfyn gwariant adrannol o un flwyddyn i'r nesaf. Y nod yw osgoi sefyllfa lle bydd arian yn gorfod cael ei ddefnyddio neu ei gollu. Mae hyn yn sicrhau bod modd defnyddio unrhyw arian nas gwariwyd yn hytrach na gorfod ei roi'n ôl i Drysorlys EM. Gellir cael rhagor o wybodaeth am HDB yn Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: [Hyblygrwydd diwedd blwyddyn](#) [fe ar 28 Mehefin 2010]

¹¹ Bydd y canran sydd i'w gadw yn gyfartal â'r canran o gynlluniau TGA nad sy'n arian parod a gafodd eu cadw yng nghynlluniau Adnoddau TGA yr Adran ar gyfer 2010-11, yn dilyn addasiadau'r prosiect Alinio.

3. Symud cronfeydd wrth gefn

Mae [Tabl 5](#) yn dangos sut y dyrannwyd arian o gronfeydd wrth gefn refeniw a chyfalaf i'r prif grwpiau gwariant.

Mae hyn yn dangos bod cyfanswm yr arian a ddyrannwyd o gronfeydd wrth gefn i adrannau Llywodraeth Cymru yn cyfateb i **£25.4 miliwn refeniw a £238.8 miliwn cyfalaf**. Fodd bynnag, mae [tabl 2](#) yn dangos mai **£64.1 miliwn refeniw a £313.3 miliwn cyfalaf** yw cyfanswm y symudiad yn y cronfeydd wrth gefn. Addasiadau yn y llinell sylfaen sy'n cyfrif am y £38.7 miliwn refeniw a'r £74.5 miliwn cyfalaf sy'n weddill, fel y dangosir yn [nhabl 5](#).

Tabl 5: Symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn

Trosglwyddwyd i/o	Refeniw wrth gefn	Cyfalaf wrth gefn	Cyfanswm
	£ miloedd	£ miloedd	£ miloedd
Cronfeydd wrth gefn, Cyllideb Derfynol 2010-11	225,883	341,078	566,961
Symud arian wrth gefn i'r PGG	-25,400	-238,800	-264,200
lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyfianwder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	-9,288	-101,300	-110,588
Yr Economi a Thrafnidiaeth	0	-10,000	-10,000
Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes	-4,000	0	-4,000
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	-5,400	-60,300	-65,700
Materion Gwledig	0	-63,400	-63,400
Treftadaeth	0	0	0
Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad	0	-3,300	-3,300
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	0	0	0
Newidiadau llinell sylfaen	-38,664	-74,459	-113,123
Newidiadau 'Llinell Welediad Glir'	-69,183	0	-69,183
Cyfalaf a ddygwyd ymlaen o 2010-11	0	-90,755	-90,755
Symiau canlyniadol o Adroddiad Rhag- gyllidebol 2009 ^a	6,984	6,402	13,386
Symiau canlyniadol o Gyllideb 2010 (Mawrth) ^b	22,815	9,894	32,709
Trosglwyddiadau o adrannau'r DU	720	0	720
Cyfanswm yr holl symud arian wrth gefn	-64,064	-313,259	-377,323
Yr arian wrth gefn yng Nghyllideb Atodol 2010-11	161,819	27,819	189,638

Ffynhonnell: Gohebiaeth rhwng Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau â Llywodraeth Cymru

a. Roedd y symiau canlyniadol o PBR 2009 yn cynnwys £3m cyfalaf o gynllun Warm Front, £2m cyfalaf o'r Gronfa Buddsoddiad Strategol, £1.2m cyfalaf o'r Cynllun Boeler Gwyrdd, a £7m refeniw yn sgil ehangu prydau ysgol am ddim.

b. Roedd y symiau canlyniadol o Gyllideb mis Mawrth 2010 yn cynnwys £17.9m refeniw o ganlyniad i Addysg Uwch, £4.9m refeniw o ganlyniad i'r buddsoddiad mewn ffyrdd a £9.9m cyfalaf o ganlyniad i gynlluniau trafndiaeth. Ni chafwyd y swm canlyniadol o £11.3m o ganlyniad i'r gostyngiad mewn ardrethi busnes oherwydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r polisi ar waith yn lle derbyn yr arian.

Mae'r symudiad yn y cronfeydd wrth gefn a ddangosir yn [nhabl 5](#) yn cynnwys nifer o symiau canlyniadol sy'n deillio o benderfyniadau Llywodraeth y DU. Ni chafwyd y

swm canlyniadol o £11.3 a ddeilliodd o ganlyniad i'r polisi ardrethi busnes a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2010 Llywodraeth flaenorol y DU gan fod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu mabwysiadu'r polisi yn hytrach na derbyn y swm canlyniadol.¹² Mae rhagor o wybodaeth am y symiau canlyniadol hyn i'w chael yng nghyhoeddiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sef:

- [Cyllideb y Canghellor](#) (Ebrill 2010)
- [Adroddiad Rhag-gyllidebol 2009](#) (Rhagfyr 2009)

Mae'r symudiad yn y cronfeydd wrth gefn hefyd yn cynnwys £90.8 miliwn o arian cyfalaf a ddygwyd ymlaen. Symudwyd y cyfalaf hwn o 2011-11 i 2009-10 er mwyn cyflymu prosiectau a rhaglenni cyfalaf fel ymateb i'r hinsawdd economaidd.

3.1. Dyraniadau o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol

Mae'r gyllideb atodol yn dangos bod £313 miliwn wedi'i ddyrannu o'r gronfa gyfalaf wrth gefn, a bod £232.4 miliwn o'r swm hwn yn gysylltiedig â phrosiectau'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol. Mae'r rhain i'w gweld yn [nhabl 6](#).

Fodd bynnag, mae'r dyraniadau dynodol a nodwyd yn yr adolygiad diweddar o'r Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn dangos bod disgwyl i £311 miliwn gael ei ddyrannu i brosiectau tranche 1 a 2 o'r Gronfa yn 2010-11. Byddai hyn yn awgrymu bod dyraniadau gwerth hyd at £78.5 miliwn i'w gwneud eto.

3.2. Buddsoddi i Arbed

Mae'r gyllideb atodol yn dangos bod £20 miliwn wedi'i ddyrannu o'r cronfeydd referniw wrth gefn ar gyfer y rhaglen Buddsoddi i Arbed. Gwnaed hyn er mwyn 'darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon ac effeithiol'.¹³ Dyrannwyd yr arian fel a ganlyn:

- £9.3 miliwn i lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- £4 miliwn i'r Economi a Thrafnidiaeth er mwyn cyflymu manteision Rhaglen Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus; a
- £6.7 miliwn i'r Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i 'sefydlu cronfa Buddsoddi i Arbed'.

¹² Gohebiaeth rhwng Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau â Llywodraeth Cymru.

¹³ Llywodraeth Cymru, [Nodyn Esboniadol Cyllideb Atodol 2010-11](#), 21 Mehefin 2010 [fel ar 28 Mehefin 2010]

Tabl 6: Dyraniadau'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol o'u cymharu â'r dyraniadau dynodol^a

<i>£ millions</i>					
Prosiect	Cyfanswm y Dyriadiad	2008-09	2009-10	Dyranidau dynodol ar gyfer 2010-	Y dyriadiad yng Nghyllideb Atodol 2010-11
Plant, Addysg, dysgu Gydol Oes a Sgiliau	96.3	9.1	11.9	75.3	60.3
Rhaglen gyfalaf ysgolion ar gyfer y 21 ganrif:					
Wrecsam (tranche 1)	5.0	0.1	2.9	2.0	..
Casnewydd (tranche 1)	5.0	0.3	4.8	0.0	..
Blaenafon (tranche 1)	15.0	8.5	1.5	5.0	..
Gwynedd (tranche 2)	4.0	0.3	2.8	1.0	..
Ebbw Vale Learning works (tranche 2)	5.3	0.0	0.0	5.3	..
Campws Taf Elai (tranche 2)	35.0	0.0	0.0	35.0	..
Canolfan Gelfyddydau ac Arloesi Da Vinci (tranche 2) ^b	12.0	0.0	0.0	12.0	..
Yr Economi a Thrafnidiaeth	56.2	1.3	13.3	41.6	0.0
Deuoli'r A465 rhwng Tredegar a Brynmawr (tranche 1)	15.0	0.0	0.0	15.0	..
Gwella gwasanaethau rheilffordd rhwng y De a'r Gogledd (tranche 1)	9.2	0.3	4.3	4.6	0.0
Gwella'r rheilffordd rhwng Tre-gwyr a Chasllwchwr (tranche 1)	27.0	0.5	4.5	22.0	0.0
Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	112.0	21.0	34.0	57.0	57.0
Rhaglen adeiladu carbon isel i Gymru gyfan (tranche 1)	20.0	0.5	4.5	15.0	0.0
Gweithfeydd trin gwastraff anaerobeg (tranche 1)	26.0	2.0	9.0	15.0	15.0
Darparu 400+ o dai fforddiadwy (tranche 1)	4.0	0.0	2.0	2.0	2.0
Amddiffynfeydd arfordirol / rhag llifogydd (tranche 1)	42.0	15.0	16.0	11.0	11.0
Ardal carbon isel Blaenau'r Cymoedd (tranche 1)	8.0	0.0	3.0	5.0	5.0
Tai fforddiadwy a pheycyn Cymorth Tai (tranche 2)	12.0	4.0	4.0	4.0	4.0
Tai fforddiadwy a pheycyn Cymorth Tai (tranche 2)	20.0	0.0	0.0	20.0	20.0
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	172.9	18.1	44.6	110.2	101.3
Gweledigaeth Iechyd Abertawe (tranche 1)	172.9	18.1	44.6	110.2	101.3
Rhaglen i wella gofal iechyd sylfaenol ledled Cymru (tranche 1)	70.0	6.8	0.0	63.2	..
Canolfan Iechyd a Lles Merthyr Tudful (tranche 1)	16.4	0.0	2.6	13.8	..
Paratoi ar gyfer y pandemig fflw (tranche 1)	8.0	0.0	0.0	8.0	..
Timau ymateb i ardal beryglon (tranche 1)	59.0	11.3	40.0	7.7	..
Canolfan Gofal mewn Argyfwng Ysbyty'r Tywysog Siarl (tranche 2)	3.0	0.0	2.0	1.0	..
Ysbyty Plant i Gymru (tranche 2)	8.5	0.0	0.0	8.5	..
Ysbyty Plant i Gymru (tranche 2)	8.0	0.0	0.0	8.0	..
Treftadaeth	8.5	0.2	1.5	6.8	3.3
Menter treftadaeth ddiwylliannol newydd i Gymru gyfan (tranche 1)	2.0	0.2	0.5	1.3	1.3
Prosiect digideiddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru (tranche 1)	2.0	0.0	1.0	1.0	1.0
Goleuadau eco (tranche 2)	1.0	0.0	0.0	1.0	1.0
Oriol Gelf Glyn Vivian (tranche 2)	3.5	0.0	0.0	3.5	0.0
Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol	20.4	0.0	0.9	19.5	10.0
Canolfan Rhannu Gwasanaethau De-ddwyrain Cymru (tranche 1)	10.4	0.0	0.9	9.5	0.0
Canolfan Cydgysylltu Strategol (tranche 2)	10.0	0.0	0.0	10.0	10.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	1.0	0.0	0.5	0.5	0.5
Systemau gwybodaeth graffeg corfforaethol (tranche 1)	1.0	0.0	0.5	0.5	0.5
Cyfanswm tranche 1	349.0	49.7	106.7	192.6	..
Cyfanswm tranche 2	118.3	118.3	..
Cyfanswm dyraniadau'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol	467.3	49.7	106.7	310.9	232.4

Ffynhonnell: [Cyllideb Atodol 2010-11](#) Llywodraeth Cymru a [FIN\(3\)-08-10 : Papur 1 : Ymchwiliad i ddyriadiad adnoddau cyfalaf - tystiolaeth gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb](#)

.. yn dynodi nad oes data ar gael

a Dyraniadau 2008-09, 2009-10 a dyraniadau dangosol 2010-11 yw'r rheini a nodwyd ym mhapur y Gweinidog i'r Pwyllgor [FIN\(3\)-08-10 : Papur 1 : Ymchwiliad i ddyriadiad adnoddau cyfalaf - tystiolaeth gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb](#)

b mewn perthynas â'r Economi a Thrafnidiaeth a Threftadaeth.

4. Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus

O gymharu â Chyllideb Derfynol 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009, dyma'r prif newidiadau i'r prif grŵp gwariant, Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n:

- Y cynnydd mwyaf o ran swm yn y cyfanswm gwariant a reolir, sef 3.5 y cant (£216.3 miliwn).
- Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 3.1 y cant (£187.2 miliwn) yn y TGA, a chynnydd o 32.4 y cant (£29.1 miliwn) yn y gwariant a reolir yn flynyddol.
- Mae'r cynnydd yn y TGA yn cynnwys cynnydd refeniw 1.4 y cant (£79.5 miliwn) a chynnydd cyfalaf o 36.3 y cant (£107.7 miliwn).

Newidiadau i'r TGA refeniw

Mae'r cynnydd o 1.4 y cant (£79.5 miliwn) yn y TGA refeniw yn cynnwys:

- Cynnydd net o £28.7 miliwn o ganlyniad i'r symiau a drosglwyddwyd rhwng y prif grwpiau gwariant, i adlewyrchu newidiadau portffolio;
- Cynnydd net o £41.6 miliwn o ganlyniad i newidiadau mewn perthynas â'r prosiect Alinio;
- Cynnydd o £9.3 miliwn a ddyrannwyd o'r cronfeydd refeniw wrth gefn ar gyfer cynlluniau Buddsoddi i Arbed (i 'Dyraniadau'r GIG').

Dyma'r symiau a drosglwyddwyd rhwng y prif grwpiau gwariant:

- Trosglwyddiadau i mewn:
 - £27.5 miliwn o'r prif grŵp gwariant, Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar gyfer y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Cyffuriau (i roi Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Cyffuriau ar waith ym maes gwariant Cyllidebau Canolog Iechyd);
 - £14.4m o'r prif grŵp gwariant, Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad, i adlewyrchu'r ffaith bod cyfrifoldeb dros raglenni grantiau i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol wedi'i drosglwyddo o Arolygiaeth Safonau Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (i 'Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol' ym maes gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol);
 - £1 miliwn o'r prif grŵp gwariant, Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (i 'Oedolion a Phobl Hŷn' ym maes gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol);

- £2.6 miliwn o'r prif grŵp gwariant, Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, mewn perthynas â Ffioedd Llysoedd Plant (i 'Gwasanaethau Cymdeithasol Plant' ym maes gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol);
- £2.1 miliwn o'r prif grŵp gwariant, Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, mewn perthynas â chostau Comisiwn Iechyd Cymru (i 'Dyraniadau'r GIG').
- Trosglwyddiadau allan:
 - £4.7 miliwn i'r prif grŵp gwariant, Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar gyfer y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid (o 'Cyfiawnder Ieuencid' ym maes gwariant Gwasanaethau Plant ac Ieuencid);
 - £10.3 miliwn i'r prif grŵp gwariant, Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar gyfer y Cynllun Grant Codi Tâl Tecach (o 'Oedolion a Phobl Hŷn' ym maes gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol);
 - £4 miliwn i'r prif grŵp gwariant, Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar gyfer y Grant Gofalwyr Iechyd Meddwl (o 'Oedolion a Phobl Hŷn' ym maes gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol).

Mae'r newidiadau mewn perthynas â'r Prosiect Alinio'n cynnwys y canlynol:

- Cael gwared ar £68.4 miliwn mewn perthynas ag arian taliadau cyfalaf nad ydynt yn arian parod (o 'Dyraniadau'r GIG');
- Ailddosbarthu £39.2 miliwn fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (o refeniw 'Dyraniadau'r GIG');
- Dyrannu £149.2 miliwn o'r gronfa wrth gefn oherwydd dibrisiant y GIG (i refeniw 'Dyraniadau'r GIG').¹⁴

Newidiadau i'r TGA cyfalaf

Mae'r cynnydd o 36.3 y cant (£107.7 miliwn) yn y TGA cyfalaf yn cynnwys:

- Cynnydd net o £6.4 miliwn o ganlyniad i symiau a drosglwyddwyd rhwng y prif grwpiau gwariant er mwyn adlewyrchu newidiadau portffolio;

¹⁴ Mae [Nodyn Esboniadol Cyllideb Atodol 2010-11](#) (tudalen 8) yn datgan bod dyraniad o £149,713k wedi ei gynnwys mewn perthynas â dibrisiant yn y GIG. Camgymeriad yw hwn, a'r swm cywir yw £149,173k, fel y rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau. [fel ar 28 Mehefin 2010]

- Cynnydd o £101.3 miliwn a ddyrannwyd o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn ar gyfer prosiectau'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol (i 'Dyraniadau'r GIG'; nid oes manylion ar gael mewn perthynas â dyraniadau unigol).

Mae'r symiau a drosglwyddwyd rhwng y prif grwpiau gwariant yn cynnwys:

- Trosglwyddo £7 miliwn o'r prif grŵp gwariant, Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (i roi Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Cyffuriau ar waith ym maes gwariant Cyllidebau Canolog Iechyd).
- Trosglwyddo £0.6 miliwn i'r prif grŵp gwariant, Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid (o 'Cyfiawnder Ieuenctid' ym maes gwariant Gwasanaethau Plant ac Ieuenctid).

Newidiadau i'r gwariant a reolir yn flynyddol

Mae'r cynnydd o 32.4 y cant (£29.1 miliwn) yn y gwariant a reolir yn flynyddol yn cynnwys:

- Gostyngiad refeniw o £10.1 miliwn, sy'n adlewyrchu rhagolygon diwygiedig mewn perthynas â dibrisiant yn y GIG;
- Ailddosbarthu £39.2 miliwn o TGA refeniw i'r gwariant a reolir yn flynyddol.

Tabl 7: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - newidiadau i'r dyraniadau ar gyfer meysydd rhaglenni gwariant

Maes Gwariant	Cyfanswm yng Nghyllideb Derfynol 10- 11 (Rhag 2009)	Newid rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol		Cyllideb Atodol 10-11 (Mehefin 2010)	Natur y newidiadau
	£ miloedd	£ miloedd	canran	£ miloedd	
Refeniw TGA:					
Dyraniadau'r GIG	5,288,477	52,961	1.0	5,341,438	2,111 Newidiadau portffolio 41,562 Newidiadau alinio 9,288 Dyraniad o'r arian wrth gefn
Cyllidebau Canolog Iechyd Iechyd Cyhoeddus ac Atal Problemau	237,439 167,711	27,475 0	11.6 0.0	264,914 167,711	27,475 Newidiadau portffolio 0 Dim Newidiadau
Gwasanaethau Cymdeithasol	98,768	3,796	3.8	102,564	3,805 Newidiadau portffolio -9 Newidiadau alinio
CAFCASS Cymru	458	0	0.0	458	0 Dim newidiadau
Gwasanaethau Plant a Chyfiawnder Ieuencid	4,715	-4,715	-100.0	0	-4,715 Newidiadau portffolio
Cyfanswm Refeniw TGA	5,797,568	79,517	1.4	5,877,085	
Cyfalaf TGA:					
Dyraniadau'r GIG	283,310	101,300	35.8	384,610	101,300 Dyraniad o'r arian wrth gefn
Cyllidebau Canolog Iechyd Iechyd Cyhoeddus ac Atal Problemau	0 6,200	7,000 0	.. 0.0	7,000 6,200	7,000 Newidiadau portffolio 0 Dim newidiadau
Gwasanaethau Cymdeithasol	6,502	0	0.0	6,502	0 Dim newidiadau
Gwasanaethau Plant a Chyfiawnder Ieuencid	600	-600	-100.0	0	-600 Newidiadau portffolio
Cyfanswm Cyfalaf TGA:	296,612	107,700	36.3	404,312	
Cyfanswm TGA Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6,094,180	187,217	3.1	6,281,397	

Ffynhonnell: Ffigurau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sy'n seiliedig ar [Gyllideb Atodol 2010-11](#)

5. Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

O gymharu â Chyllideb Derfynol 2010-11 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009, dyma'r prif newidiadau i'r prif grŵp gwariant, Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol:

- Dangos gostyngiad o 0.9 y cant (£39.7 miliwn) yn y cyfanswm gwariant a reolir.
- Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 0.8 y cant (£37.8 miliwn) yn y TGA, a gostyngiad o 14 y cant (£1.9 miliwn) yn yr arian a reolir yn flynyddol.
- Mae'r gostyngiad yn y TGA yn cynnwys gostyngiad refeniw o 0.5 y cant (£22.6 miliwn) a gostyngiad cyfalaf o 19.4 y cant (£15.2 miliwn).

Newidiadau i'r TGA refeniw

Cafwyd gostyngiad net o £22.6 miliwn yn y TGA refeniw o ganlyniad i drosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant.

Mae'r trosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant yn cynnwys:

- Trosglwyddiadau allan:
 - £27.5 miliwn i'r prif grŵp gwariant, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar gyfer camddefnyddio sylweddau (o 'Camddefnyddio Sylweddau' ym maes gwariant Cymunedau Diogelach);
